# CARDIAU DEWISIADAU A CHANLYNIADAU

| | |
|---|---|
| **Rydych yn dewis ailgylchu eich sbwriel.** | Mae eich dewis yn golygu y bydd ffermwyr cotwm mewn gwledydd megis India a Tsieina yn cael eu talu pris teg am y cotwm maent yn ei gynhyrchu. |
| **Rydych yn dewis gwisg ysgol sy'n defnyddio cotwm Masnach Deg.** | Mae eich dewis yn golygu y bydd ffermwyr coco, ffermwyr fanila a ffermwyr siwgr a wnaeth dyfu eich cynhwysion yn cael eu talu'n deg. |
| **Rydych yn dewis banana Masnach Deg ar gyfer amser byrbryd.** | Mae eich dewis yn golygu bod gweithwyr blodau mewn gwledydd megis Cenia, Ethiopia a Sri Lanka yn cael arian i'w wario ar ofal iechyd, addysg neu anghenion eraill. |
| **Rydych yn dewis pobi gan ddefnyddio cynhwysion Masnach Deg.** | Mae eich dewis yn golygu bod gan ffermwyr bananas mewn gwledydd megis Colombia a'r Weriniaeth Ddominicaidd fwy o arian i ddiwallu anghenion eu cymunedau. |
| **Rydych chi a'ch teulu'n dewis tusw o flodau haul Masnach Deg ar gyfer eich ystafell fyw.** | Mae eich dewis yn golygu bod eich sbwriel yn cael ei wneud yn rhywbeth arall! Rydych wedi diogelu anifeiliaid a'u cynefinoedd rhag cael eu niweidio rhag sbwriel. |
| **Rydych yn dewis mynd â'ch hen ddillad i siop elusen yn lle eu rhoi yn y bin sbwriel.** | Mae eich dewis wedi cadw dillad rhag mynd i'r safle tirlenwi. Mae safleoedd tirlenwi'n cynhyrchu nwyon gwenwynig sy'n achosi'r newid yn yr hinsawdd. Mae eich dewis hefyd wedi sicrhau bod siopwr mewn siop elusen yn hapus iawn! |